

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 209

Pris 80c

Mis Chwefror 2019



Eglwys Sant Sannan Bedwellty
gweler tudalen 3

PWYLLGOR A SWYDDOGION



Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn, Jenni Jones-Annetts

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

DEDDF NEWYDD PREIFATRWYDD—DARLLENWCH

Os ydych yn darllen “Cwmni”, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data wedi newid ers mis Mai, ac felly mae gennym yn awr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthydd sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech dderbyn copi o'r Rhybudd Preifatrwydd, gallwch wneud hynny drwy ymweld â gwefan y papur: entercaerffili.cymru/ 

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Golygydd. Gweler manylion cysylltu uchod.

Oedfaon Chwefror Capeli Caerffili

Bedyddwyr Tonyfelin : Mis Chwefror

3ydd 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
10fed I'w drefnu
17fed : Yn Bethel trwy'r dydd
24ain 10.30 a 6.00 : Marc Jon Williams

Penuel, Rhymni

3ydd Parch T Jones
10fed Rev. R Grey
17eg Dr. G Jones
24ain Parch Aled Thomas

Annibynwyr, Bethel

10.30 Dr John Gwynfor Jones
10.30 Dr Neville Evans
10.30 (Cym) 6.00 Parch Robert O. Griffiths
10.30 a 6.00 Gyda Tonyfelin

Capel y Groeswen

17eg o Chwefror
3:00 y.p
Rev Malcolm Shapland

*High above the Rhymney Valley
Bedwellty in her peace abides
Square and bold, her tower triumphs
Above the broken valley sides*

Dyma sut y dechreuodd Idris Davies ei gerdd *Bedwellty Church*. Saif eglwys blwyf Sant Sannan ym Medwellty tua 1,025 troedfedd ar y gefnen rhwng cymoedd Rhymni a Sirhowy yng ngogledd-orllewinol yr hen Sir Fynwy.

Ar un adeg roedd plwyf Bedwellty yn ymestyn o'r Coed Duon yn y de hyd at Rymni, Tredegar a Glyn Ebwy yn y gogledd ond mae lawer yn llai erbyn heddiw. Mae'r gefnffordd hynafol Sarn Hir neu'r ffordd hir gerllaw'r eglwys. Er bod pentrefi diwydiannol Aberbargoed a Markham yn agos, fe gewch y teimlad fod yr eglwys fel petai ar wahân iddynt.

Mae golygfeydd ysblennydd o dŵr yr eglwys a fu yn yr hen amser yn chwarae rhan bwysig yn y weithred o gyfathrebu trwy rybuddio'r plwyfolion pan oedd perygl ar y ffordd. Gellid fflachio neges i eglwysi'r plwyfi eraill yn ardal Mynyddislwyn a Gelligaer naill ai drwy ddefnyddio fflachiadau tân neu blatiau metel wedi'u gloywi. I'r gogledd cewch olygfeydd gwych o Fannau Brycheiniog ac i'r de fe welwch fryngaer Twm Barlwm.

Cafwyd nifer o ddamcaniaethau ynglŷn â tharddiad yr enw Bedwellty a'r ddau ystyr mwyaf tebygol yw Bodfelltau, sef mangre nant gyflym, neu Bedw Alltyd.

Gellir gweld yr ail bosibilrwydd uchod efallai yn Heol y Bedw Hirion, yr enw a roddwyd ar y rhan honno o'r Sarn Hir sy'n arwain o Fedwellty tua'r de. Mae cynigion llai tebygol ond llawer mwy rhamantus i'w cael mewn dwy chwedl leol.

Yn ôl un traddodiad, os gallai troseddwr ddianc o'r sir a pharhau i fod yn rhydd hyd fachlud haul, ni allai gael ei gyhuddo. Ceir hanes am droseddwr a oedd wedi ffoi o'i ardal er mwyn osgoi cael ei ddal a dywedir ei fod wedi cyraedd bwthyn ar gomin Bedwellty cyn machlud haul. Rhoddodd yr hen wraig a oedd yn berchen y tŷ ddiod o laeth enwyn iddo, ond yn anffodus roedd y llaeth enwyn yn rhy fras. Roedd y gŵr mor flinedig a'r llaeth enwyn mor anodd i'w dreulio a'r canlyniad oedd iddo gael ei daro'n wael yn y tŷ. Ei eiriau olaf cyn marw oedd 'Byd gwell i ti'.

Ym 1859 cyhoeddwyd llyfryn gan y Parchedig Edmond Leigh. Mae stori ynddo am hen wreigan a elwid yn Mary Gwaun y Borfa a oedd wedi clywed ei thad yn dweud bod pla wedi diboblogi'r plwyf ar un adeg a bod neb ar ôl i gladdu'r meirw.

Dengys cofnodion fod pla wedi taro'r ardal yn 1638. Gwelir bod 82 o bobl wedi marw ohono ac, o ystyried mai tua 142 oedd cyfanswm poblogaeth y plwyf yn 1679, gellid gweld mor niweidiol oedd effeithiau'r pla.

Cafwyd hyd i nifer anarferol o esgyrn dynol wedi'u claddu o dan lawr yr eglwys pan wnaed gwaith adfer ar yr adeilad. Ai gweddillion yr anffodusion a fu farw o'r pla oeddynt? Daw'r crynodeb canlynol o lyfr y Parchedig Fothergill:

Gomer ap Llyder oedd y dyn olaf i fyw yn y plwyf cyn iddo gael ei alw'n Bedwellty. Roedd Gomer wedi bod allan yn hela drwy'r dydd ac erbyn iddo gyrraedd adre roedd mor flinedig nes iddo lewygu a syrthio i drwmgwsg. Pan ddeffrôdd, galwodd ar ei wraig a'i blant ond roedd tawelwch llwyr.

Teimlai'n unig a digalon. Wrth redeg o'i stafell, gwelodd gorff Bangor, ei hoff filgi, yn gorwedd yn y porth. Roedd yr adar dof i gyd yn farw yn eu cewyll. Rhedodd at ochr nant lle daeth o hyd i gyrff ei wraig a'i blant, y cyfan yn ddu ac wedi chwyddo. Doedd Gomer ddim wedi crio ers ei blentyndod ond fe wylodd yn hidl y tro hwn. Aeth â chorff ei wraig i'r nant i geisio ei olchi, ond roedd y nant yn llawn pryfetach wedi marw. Llamodd drosti er mwyn cyrraedd tŷ ei gymydog. Yno, daeth o hyd i braidd o ddefaid wedi marw. Roedd popeth yn ddistaw.

Roedd Angel Dinistr wedi lladd popeth byw a daeth Gomer o hyd i gyrff ei gymdogion. Dechreuodd addoli hen dduwiau'r Cymry tra'n cerdded ar hyd y wlad gan weiddi 'Dim bywyd'.

Ar y trydydd dydd gorffwysodd Gomer ar ben bryn. Yn y pellter gwelodd olau rhyfedd yn dod tuag ato. Fel roedd y golau yn nesáu, gwelai ei fod ar ffurf angel a ddywedodd wrtho mewn llais o gydymdeimlad dwys: 'Byd gwell i ti'. Yn dilyn hyn, fe chwaraeodd Gomer ran weithgar yn y gwaith o sefydlu eglwys ym Medwellty a'i henwi ar ôl yr hyn ddywedodd yr angel.

Mae'r eglwys wedi'i chysegru i Sant Sannan ond ni welir yr enw hwn ar restr y seintiau. A yw hi'n bosibl fod Senen wedi newid i Sannan dros y blynyddoedd?



Y ffenest yn dangos y llawfeddyg John Clarke a Sgt William John Haskoll

Dyfodol Caerffili (1)

Mae cynlluniau pellgyrhaeddol ar y gweill ar gyfer canol tref Caerffili. Mae Grŵp Rheoli Canol Caerffili, ynghyd ag asiantaethau eraill wedi bod yn brysur iawn ar ein rhan.

Dywedir fod CADW, y corff sy'n gyfrifol am henebion a hen adeiladau, yn bwriadu datblygu'r castell i ateb gofynion masnachol a thwristiaeth yr C21ain. Mae gwefan CADW yn dweud eu bod am ddechrau drwy adnewyddu'r ganolfan ymwelwyr yn y castell. Eisoes gwelwyd adeiladu drysle (*maze*) rhyngweithiol, ffau dreigiau a chynnal sesiynau saethu peiriannau gwarchae yn rheolaidd. Ond hefyd mae datblygwyr yn gweld modd i gael twristiaid i dreulio mwy o amser yn y dref. Byddai cyfleoedd cyflogaeth yn cynyddu wrth ddatblygu'r dref ar gyfer twristiaeth fel hyn. Rhan sylfaenol o unrhyw ddatblygiadau fyddai agor ochr orllewinol y castell i fyny yn ardal Heol Nantgarw a Heol y Cilgant. Gallai safle Llys Ifor, sydd ar hyn o bryd yn wag, fod yn fodd i wella cyfleoedd parcio wrth ddatblygu Heol y Cilgant a Park Lane gan hwyluso mynediad i'r castell o'r ochr orllewinol.



Gwesty'r Clive Hotel lle mae JB Sport nawr a lle bu Tesco tan yn ddiweddar

Datblygwyd y siopau yn Heol Caerdydd yn ystod chwedegau a saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Roedd llawer ohonom ar y pryd yn gresynu bod yr awdurdodau yn aberthu'n treftadaeth wrth ganiatáu dymchwel adeiladau fel Tŷ Vaughan a hen westy'r Clive

Bu cryn sôn am ddatblygu Park Lane lle bu swyddfa'r heddlu a neuadd Sant Martin ond gwelir fod y tir wedi'i glirio'n llwyr yno erbyn hyn.

Y newyddion diweddaraf yw bod trafodaethau yn cymryd lle ar gyfer adeiladu gwesty modern ar y safle.

Credir y byddai gwesty o safon uwch fan hyn, o'i chymharu â'r gwestai cost isel a geir ar gyrion y dref, yn fodd o wneud y castell yn fwy deniadol i ddigwyddiadau megis priodasau.

Rydym yn llongyfarch y cyngor am gofio dylanwad Burgess, pensaer yr Ardalydd Bute, wrth iddynt lunio'r Ganolfan Groeso, addasu'r hen gapel i ddod yn Ganolfan Gymunedol ac, wrth gwrs, y llyfrgell newydd. Dywedir yn y ddogfen *Masterplan* Basin Caerffili bod galw am wella ffasâd yr adeiladau sy'n wynebu'r castell. Edrychwn ymlaen nawr at weld datblygiadau yn parhau â thema Burgess drwy gynnig gwelliannau a fydd yn cynnig rhywbeth yn lle erchyllterau'r chwedegau. Gan sicrhau y bydd hynny mewn dull a fydd yn fwy cydnaws â hanes y dref.


Bu rhai o'n cynghorwyr yn edrych ar ddatblygu gorsaf y dre ymhellach. Mae'n beth da fod y trenau a'r bysiau yn ymgynnull yn yr un man yng Nghaerffili, oherwydd nid felly y mae hi ym mhob tref. Ond mae galw nawr ar gadw llygad ar ddatblygiadau'r *Metro* bondigrybwyll i weld a allwn ni yng Nghaerffili elwa o fuddsoddiadau sylweddol y Cynulliad ar gyfer rheilffyrdd.

Pwynt diddorol arall yw bod y cynllunwyr wedi nodi'r galw am le i barcio beiciau yn ein gorsafoedd rheilffyrdd am nad yw'r trenau bob amser yn gallu dod o hyd i le i feiciau! Yn fwy na hyn mae sôn am ddatblygu'r rheilffordd o'r dref i Gasnewydd gan gynnwys argymhellion am fannau aros ym Mharc Lansbury, Tretomas, Waterloo a Machen. Cyffrous!

Wrth edrych ar gyfleusterau hamdden dywedir bod angen adnewyddu neu godi canolfan newydd yn lle'r un ar Barc Virginia a agorodd yn 1976. Rhoddir sylw priodol i ddatblygu Neuadd y Gweithwyr ym Medwas a Chaerffili a chroesawn y newyddion diweddaraf fod arian nawr ar gael ar gyfer datblygu'r neuadd yn Heol y Castell, Caerffili. A diolch byth, mae galw am fwy o fannau parcio ganol y dref.

Mae tref y farchnad yn deffro: mae pethau'n digwydd! Byddwn yn gwylio unrhyw ddatblygiadau pellach â diddordeb felly parhewch i ddarllen eich papur bro er mwyn cadw i fyny gyda'r datblygiadau.

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



N A B L A R Y W U T
O L Y O M Y R G S R
D B N E P L E G S A
R N A R F R I N S E
E S G M O R D T Y W
W G S G R Y A S L L
I W S L O D L I B C
T A E L I B E F N G
H D A W Y U R M Y C
W R M P A R G E O L

Gyda'r chwe gwlad yn cystadlu'r mis hwn a'r mis nesaf, dyma bôs rygbi i chi.

Mae 12 gair wedi'u claddu'n rhywle yn y rhwyll. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

Cymru stadiwm Yr Eidal maes

Iwerddon asgell Ffrainc sgrym

Lloegr sgôr Yr Alban sgwad

Mae'r atebion ar waelod tudalen y dysgwyr

Penben



Pa fath o anifail yw Saluki? Pwy yw'r Gymraes sy'n cyflwyno The One Show? Pa brifddinas yn y byd yw'r un fwyaf deheuol?

Os llwyddoch chi i ateb y cwestiynau uchod, fe ddylech gysylltu yn syth gyda BBC RADIO CYMRU, sydd wrthi'n chwilio am gystadleuwyr ar gyfer y cwis Penben.

Cwis gwybodaeth gyffredinol yw'r cwis ac fe fydd y recordio yn digwydd ym Mangor a Chaerdydd ar ddechrau 2019. Rhwch gynnig arni.

Cysylltwch : radio.cymru@bbc.co.uk 03703 500600 (opsiwn 4)

Gyda llaw, ci yw Saluki, Alex Jones sy'n cyflwyno'r One Show a Wellington yw'r brifddinas fwyaf deheuol.

Ffosiliau Hanes



Newidiodd diwydiant olwg ein hardal lawer mwy na chrefydd. Daeth y gweithiau eu hun - gweithfeydd haearn Rhymni i ddechrau ym 1801, ac yna lu o byllau glo ar hyd y cwm, wrth i ni feistrolî'r grefft o suddo pyllau dyfnion. Adeiladwyd tai ar gyfer y gweithwyr a'u teuluoedd: plastai crand y rheolwyr, a'r miloedd o dai teras sy'n dringo llethrau'r cwm. Mae olion gwaith haearn Rhymni o'r golwg bellach, ond mae'r dref ei hun yn llawn adeiladau o gyfnod cynnar diwydiant yn ein cwm ni. Dyna'r Dre Newydd hardd ar gyrion y dref, a thai a strydoedd llydan y dref ei hun yn dyst i'r cyfoeth a'r prysurdeb a fu ryw ganrif yn ôl, pan oedd Rhymni "the stronghold of Welsh in Monmouthshire" yn ôl un papur ym 1914.

Diflannodd diwydiant, ac mae'r pyllau i gyd wedi cau. Ond mae miloedd o'r tai a godwyd ar gyfer y gweithwyr yn gartrefi hyd heddiw. Y cymunedau a dyfodd o gwmpas y gweithfeydd yw craidd ein cymunedau ni. Mae safleoedd rhai o'r pyllau wedi eu gweddnewid yn barciau gwledig, fel Cwm Darran, eraill wedi cael eu chwalu er mwyn adeiladu tai neu ganolfannau siopa. Yn Nhŷ Weindio Pwll Elliot yng Nghwmsyfiog mae amgueddfa'n cwm ac mae safle pwll Senghennydd, wedi ei droi'n gofeb i'r glowyr a dalodd gyda'u bywydau am lwyddiant y diwydiant glo. Ond mae eraill, fel pwll Penallta, yn pydru o flaen ein llygaid.

Ond mae rhai adeiladau urddasol eraill yn dal i sefyll. Onid oes modd eu defnyddio mewn ffyrdd newydd a dychmygus, fel ag a wnaed ym Merthyr Tudful gyda chapel Soar? Mae Capel Hanbury, Bargod, yn enghraifft wych o'r posibiladau. Oes rhaid i neuadd urddasol pwll Penallta ddirywio? Oes rhaid i gapel Penuel Rhymni droi'n adfail? Mae cnewyllyn ffyddlon yn dal i addoli yno, ac yn y Gymraeg: iaith a ystyrid unwaith yn ffosil ei hun!

Mae llawer o ffosiliau hanes yn ein Cwm Ni – beddrodau Oes yr Efydd, ceirydd Rhufeinig, cestyll a maenordai, megis Llancaeath a Gilfach Fargod Fawr. Adeiladwyd pob un i gwrdd ag anghenion cymdeithas ei ddydd. Ond mae cymdeithas yn newid, a'i hanghenion hefyd, ac mae ffosiliau hanes mwy diweddar gennym: adeiladau sy'n ein hatgoffa o'r cyfnodau pan newidiodd crefydd a diwydiant olwg y cwm hwn.

Dechreuodd chwyldro crefyddol yn ein cwm ni yn ein hen eglwysi, pan glywodd y cynulleidfaoedd gyhoeddi cyfundrefn eglwysig newydd Harri VIII. Erbyn y ganrif nesaf roedd cynulleidfaoedd newydd o Fedyddwyr ac Annibynwyr yn addoli yn y dirgel mewn mannau anghysbell. O'r cynulleidfaoedd hyn ddaeth rhai o'n capeli cyfoes, fel Tonyfelin. Symbylodd Diwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif sefydlu achosion newydd. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg atgyweiriwyd ac ymestynnwyd y capeli hyn i gyd oherwydd twf aruthrol Anghydfurfiaeth - ac adeiladwyd rhagor o gapeli. Mae'r trai a fu ar Gristnogaeth yn gyffredinol, ac ar Anghydfurfiaeth yn arbennig, yng Nghymru yn ystod y ganrif ddiwethaf yn cael ei adlewyrchu yng nghyflwr y capeli hyn. Ffosiliau yw'r mwyafrif ohonynt heddiw.

Eisteddfodau'r Urdd 2019

Cylch Llanofer/CwmRhymni- 16 Mawrth Caneuon Actol Offerynol a Cherdd Dant- 28 Mawrth

Eisteddfod Uwchradd- 4ydd Ebrill

Sir Cynradd- 6ed Ebrill

Celf a Chrefft Rhanbarthol yn y Coed Duon- 2il o Fai



Blwyddyn Newydd Dda bawb! Wnaethoch chi adduned blwyddyn newydd tybed? Yn fwy pwysig, ydych chi wedi cadw'r adduned tan fis Chwefror? Ar ddechrau blwyddyn newydd, rydyn ni'n meddwl am beth ddylen ni wneud. Dyma'r ferf byddwn ni'n ei defnyddio y mis yma felly.

Dylwn i / Ddylwn i ddim *I should / I should not*

Beth ddylet ti wneud i fod yn iach?

Dylwn i fwyta mwy o ffrwythau

Ddylwn i ddim bwyta sglodion

Sylwch!! Mae treigliad meddal ar ôl **dylwn i** ond does DIM treigliad ar ôl **ddylwn i ddim**. **Byddwch yn ofalus!!**

Nawr cysylltwch yr ateb cywir gyda phob cwestiwn :

Beth ddylet ti wneud i edrych yn smart?
Beth ddylet ti wneud i gael mwy o arian?
Beth ddylet ti wneud i basio arholiad?
Beth ddylet ti wneud i roi argraff dda?
Beth ddylet ti wneud i wella dy Gymraeg?



a) Ddylwn i ddim ysmygu

b) Dylwn i ymarfer bob dydd

c) Dylwn i brynu dillad newydd

ch) Dylwn i fod yn gwrtais

d) Dylwn i weithio'n galed

(atebion ar waelod y dudalen)

adduned blwyddyn newydd : a new year resolution

beth ddylen ni wneud : what we should do

argraff dda : a good impression



cadw : keep

cysylltwch : link

yn gwrtais : polite

Atebion

Posau'r Plant



Colofn y Dysgwyr

c) Dylwn i brynu dillad newydd
a) Ddylwn i ddim ysmygu
d) Dylwn i weithio'n galed
ch) Dylwn i fod yn gwrtais
b) Dylwn i ymarfer bob dydd

Beth ddylet ti wneud i edrych yn smart?
Beth ddylet ti wneud i gael mwy o arian?
Beth ddylet ti wneud i basio arholiad?
Beth ddylet ti wneud i roi argraff dda?
Beth ddylet ti wneud i wella dy Gymraeg?

Cymdeithas Brodwaith Cymru

Maes Meini
Rhyduchaf
Y Bala
LL23 7SD
01678 520293
maes.meini@btinternet.com

Annwyl Syr/Madam

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £500 i fyfyrwr Cymraeg sy'n dilyn cwrs tecstilau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddianus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o'r gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, a threfnir cyrsiau, darlithoedd, dosbarthiadau ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinnir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Mae gennym arddangosfa o waith yr aelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn.

I gael ffurflen gais neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Medwen Charles, Maes Meini, Rhyduchaf, Y Bala, LL23 7SD. maes.meini@btinternet.com Y dyddiad cau fydd 14 Chwefror, 2019.

Gyda diolch,
Yn gywir,

Medwen Charles

Canolfan Ymwelwyr Caerffili



Mae Martin, rheolwr y Ganolfan, sy'n ddysgwr brwd yn awyddus i ail enwi'r Ganolfan gan ei fod bellach yn gaffi.

Dyma'ch cyfle chi i gynnig enw i'r caffi gan achub ar y cyfle i sicrhau mai enw Cymraeg fydd arno.

Gyrrwch eich syniadau at y Golygydd, mae'r manylion ar dudalen 2.

Eisteddfod y Cymoedd



CYFARFOD BLYNYDDOL

Campws y Gwyndy

Nos Lun, 4ydd o Chwefror

7:00

Dewch i Gefnogi

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein cyfarfod ar Dachwedd 19eg cawsom gwmni'r Dr Keith Rowlands. Cafodd ei addysg gynradd yn ysgol pentref ei fagwraeth, Bancffosfelen, a'i addysg uwchradd yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Caerfyrddin. Dilynodd gwrs gradd mewn mathemateg yn y brifysgol yn Abertawe, gan aros yno i gyflawni ymchwil mewn mathemateg bur a arweiniodd at ddoethuriaeth. Bu hyn yn fodd iddo ymuno â'r Adran Fathemateg yn y brifysgol yn Aberystwyth lle bu am weddill ei yrfa.

Ar ddechrau'r ddarlith cawsom wybod y byddai'r pwyslais ar rifau a fformwlâu sy wedi denu sylw mathemategwyr dros ganrifoedd. Cafwyd cyfle ar unwaith i ddwyn i gof hen ffefryn – Theorem Pythagoras (tua 600 C.C.) – sy'n nodi'r berthynas rhwng hydoedd ochrau triongl sgwâr, e.e. $(5 \times 5) = (4 \times 4) + (3 \times 3)$. Yna nodwyd agwedd ar waith Euclid (tua 300 c.c.), sef, bod cyfres y rhifau cysefin (2, 3, 5, 7, 11, 13, 17.....) yn anfeidraidd (di-ddiwedd). Defnyddiodd y dull 'profi trwy groes-ddywediad' i gyfiawnhau ei ddatganiad.

Cyfeiriwyd at nifer o gewri mathemateg y ddeunawfed ganrif, megis, Euler (1707-1783), Leibnitz (1646-1716), a Richard Price (1723-1791), yr olaf yn enedigol o bentref Llangeinor, Cwm Ogwr; daeth yr olaf yn enwog am ei wleidyddiaeth ryddfrydol a'i fathemateg a osododd sail cadarn i'r diwydiant yswiriant.

Ychydig o flaen y rhain oedd Marin Mersenne (1588-1648), abad yn Ffrainc ac yn gyfaill i Descartes (1596-1650) a Pascal (1623-1662).

Pennaf diddordeb Mersenne oedd cyfresi yn dilyn y ffurf, 2 (i'r pŵer n) $- 1 = ?$, e.e. 2 (i'r pŵer 2) $- 1 = 3$, 2 (i'r pŵer 3) $- 1 = 7$, 2 (i'r pŵer 11) $- 1 = 2047$ (23×89). Mentrwch gyda 2 (i'r pŵer $77, 232, 917$) $- 1 = ??????$ fel mae cyfrifiadur wedi'i gyflawni.

Diddorol iawn oedd clywed am y ffrwgdw a gododd rhwng Isaac Newton (1642-1727) a Leibnitz, parthed pwy greodd y calcwlws. Aeth y cweryl at Y Gymdeithas Frenhinol am adolygiad gan bwyllgor dan gadeiryddiaeth William Jones o Ynys Môn. Digon brwnt oedd y cecru ac ni chafwyd dyfarniad penodol i blesio pawb.

Wrth orffen, cyfeiriodd ein siaradwr at stori dda arall yn y ganrif ddiwethaf ynghylch dirgelwch o'r ail ganrif ar bymtheg. Roedd Pierre de Fermat (1601-1665) yn amatur o fathemategydd, ond yn meddu ar ddawn ryfeddol i gyhoeddi fformwla heb ddim o werth i gyfiawnhau ei ddewis. Bu mathemategwyr o fri yn chwysu uwchben y dirgelwch am flynyddoedd. Yn 1997 dyfarnwyd gwobr o 50,000 doler i Andrew Wiles am ei ddatrysiad.

Ond ni fu'r daith yn un esmwyth, gan fod Nick Katz wedi nodi gwall sylweddol yn natrysiad cyntaf Wiles. Bu helynt ond gyda tacluso gofalus cafwyd y diwedd priodol. Mae'r hanes gwefreiddiol mewn llyfr, at ddarllenwyr cyffredin, yn dwyn y teitl Fermat's Last Theorem gan Simon Singh. Anrheg Nadolig!

Meithrin Cwm Gwyddon



Llongyfarchiadau i staff Cylch Cwm Gwyddon ar oi dros 20 mlynedd o wasanaeth i blant yr ardal. Yn y llun gweler yr arweinydd Sally Baker a Leslie Lloyd. Mae Rose Sharp hefyd wedi bod yn gweithio yn y Cylch ers dros 20 mlynedd.

Cyflwynwyd pennill mewn ffram a cerdyn iddynt i nodi yr achlysur ac i ddiolch iddynt.

Mae y Cylch o fewn Ysgol Cwm Gwyddon yn mynd o nerth i nerth.

Merched y Wawr Cwm Rhymni

Hillcrest



Hyfryd yw cael cwmni ffrindiau a theulu i ddathlu gŵyl y Nadolig. Byddwn fel cangen Merched y Wawr yn cwrdd yn fisol i wrando ar westeion yn trafod pynciau amrywiol, ond nid oedd angen unrhyw un arnom ym mis Rhagfyr. Cafwyd digon o gyfle i roi'r byd yn ei le a hynny dros dde prynhawn yng nghartref teulu Hillcrest, Cefn Fforest – roedd y bwyd yn flasus, a'r sieri a'r gwin hefyd, os oedd rhai yn eu dewis!

Roeddem wedi ymgynull yn yr ystafell haul, wedi'i haddurno gan nifer o goed Nadolig lliwgar a phlanhigion cartref. Roedd

modd gweld gardd hyfryd Hillcrest o'r ffenest.

Buom yn Hillcrest ddwywaith o'r blaen yn yr Haf pan fu ar agor dan gynllun y National Garden Scheme, gan ryfeddu at yr amrywiaeth o blanhigion, yn goed a blodau. Mae'r teulu wedi codi miloedd tuag at y cynllun, sy'n cyfrannu at elusennau fel Gofal Canser Macmillan, Marie Curie ac elusennau ieuchyd amrywiol eraill. Eleni, mae'r teulu'n cynnig te prynhawn Nadolig i grwpiau er mwyn cyfrannu at yr elusennau yn ystod tymor y Gaeaf pan nad oes modd mynd i'r ardd. Diolch yn fawr iddynt am brynhawn hyfryd.



Sian Griffiths

Banc Bwyd

Dywed rhai taw pobl anystywallt iawn sy'n byw yn y cymoedd, ond mae aelodau Merched y Wawr wedi ymateb yn barod iawn i gais gan eu Llywydd Cenedlaethol, Meirwen Lloyd, i aelodau gyfrannu at fanc bwyd lleol. Rhan o'i chyfarchion Nadolig oedd y cais, a phan ddarllenwyd y llythyr i aelodau Cangen Cwm Rhymni, yn eu cyfarfod ym mis Tachwedd, aethant ati ar unwaith i ufuddhau.

Does dim rhaid chwilio ymhell am fanc bwyd yn yr ardal hon, gwaetha'r modd, ond yn y diwedd penderfynwyd ar y banc a drefnir gan Ganolfan Gristnogol Oasis yng Nghefn Fforest ger y Coed Duon. Yno'r aeth Elin Jones, Llywydd y Gangen, a Mo Potter, yr Is-Lywydd, ar fore diflas Rhagfyr 20fed, gyda llond car o fwydydd o bob math – ac ambell i anrheg dymhorol hefyd.

Cafodd y ddwy groeso hyfryd gan staff y Ganolfan, a chawsant weld y stordy trefnus lle cesglir a dosrennir y gwahanol fwydydd a'r nwyddau angenrheidiol eraill – papur tŷ bach, hylif golchi llestri, tywelion misglwyf. Nid prinder bwyd yn unig sy'n faich ar yr anghenus yn ein cymdeithas.



A gwelodd Elin a Mo hefyd wynebau'r garfan fechan oedd yn disgwyl wrth y drysau... Nid adeg y Nadolig yn unig y bydd aelodau'n cangen yn cyfrannu i'r banciau bwyd o hyn ymlaen. Diolch Meirwen am agor ein llygaid i'r angen sydd o'n cwmpas yn y dyddiau hyn.

Dr Elin Jones

Steffan Lewis AM: Teyrnged

Talodd y Cynghorydd Colin Mann, arweinydd grŵp Plaid Cymru ar gyngor Caerffili, deyrnged i Steffan Lewis AC yn dilyn ei farwolaeth pan oedd ond yn 34 mlwydd oed.

Dywedodd Colin Mann: “Mae hwn yn ddiwrnod trasig i bob un a adnabu Steffan Lewis ac i bobol Cymru. Mae’n meddyliau i gyda’i wraig Shona, ei fab ifanc Celyn a’i holl deulu, am fod eu colled hwy yn arbennig o ddifrifol. Mae colli Steffan yn golled enfawr i Blaid Cymru ac i Gymru.

“Rydym wedi colli un â’r potensial i wneud cyfraniad arwyddocaol i ddyfodol ein gwlad. Gwelwyd ef gan lawer fel Arweinydd Plaid ar gyfer y dyfodol. Mae’n anodd gor-ddweud cymaint yw colled marwolaeth Steffan.

“Roedd Steffan yn wleidydd talentog da a theg dros ben ac yn un a gyffyrddodd â bywydau nifer fawr iawn o bobol. Er iddo dreulio ond ychydig bach o amser yn y Cynulliad Cenedlaethol, roedd eisoes wedi gwneud ei farc yno. Fe ddrafftiodd y Ddeddf Barhau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i wrthsefyll ymgais San Steffan i ddwyn pŵer mewn ymateb i sefyllfa Brexit.

“Enillodd ein hedmygedd ni i gyd yn y ffordd y bu’n ymgyrchu yn erbyn cancer, tra ar yr un pryd yn parhau â’i waith yn AC tan ychydig cyn ei farwolaeth anamserol. Cyn cael ei ethol roedd yn ymchwilydd uchel ei barch yn gweithio i Jocelyn Davies a chyn arweinydd y Blaid Leanne Wood. Rydw i’n gwybod iddo weithio’n eithriadol o galed mewn cysylltiad â’r dadleuon etholiadol ar y teledu.

“Cymer amser hir iawn i ni dderbyn y newyddion trasig yma.”



Côr Ieuenctid Caerffili

Yn Eisteddfod y Cymoedd fis Hydref y llynedd fe wnaeth côr lleol newydd ei ymddangosiad cyhoeddus cyntaf. Er mai ond ym mis Medi y ffurfiwyd Côr Ieuenctid Caerffili, yn ôl Rhys Griffiths sy’n un o’r trefnwyr, “Fe wnaethon ni weld wrth ymarfer bod nhw’n pigo pethe lan yn gloi. Felly gwnaethon ni benderfynu man a man i ni fynd amdani a chystadlu yn ‘Steddfod y Cymoedd!’.” 5 neu 6 ymarfer yn ddiweddarach, dyna a wnaethpwyd, gan gipio gwobr y Côr Ieuenctid.



Ffurfiwyd y côr gan dri ffrind: Rhys, ei wraig Naomi, a Rhian Jones. Fe drafodwyd y syniad yn wreiddiol rai blynyddoedd yn ôl, ac yna, cyn yr haf y llynedd, dyma benderfynu mynd ati o ddifrif i drefnu. Mae’r côr yn ymarfer yng Nghanolfan y Glowyr yng Nghaerffili rhwng 17:30 - 19:00, bob nos Lun yn ystod tymhorau ysgol. Côr i ddisgyblion blwyddyn 4 - 9 yw e, gyda’r bwriad o bontio rhwng yr ysgolion cynradd a’r uwchradd. Ar hyn o bryd mae gan y côr tua 14 o aelodau, a rheini yn dod o 5 ysgol leol.

Mae gan Rhian, Naomi a Rhys atgofion melyn o’u profiadau nhw o ganu mewn amryw gorau pan yn iau, ac yn awyddus i roi cyfleoedd tebyg i blant Cwm Rhymni. Ac mae Islwyn Evans, arweinydd Côr Ysgol Gerdd Ceredigion (lle bu Rhys yn aelod) wedi bod yn cynnig ambell air o gyngor.

Rhian sy’n cyfeilio (fel mae’n gwneud i gôr lleol arall, Côr Cwm Ni), gyda Naomi a Rhys yn rhannu’r dyletswyddau hyfforddi ac arwain. Does ’na ddim dadlau am y trefnu medden nhw, mae’n digwydd yn ddigon anffurfiol trwy grŵp *WhatsApp*! Ac maen nhw’n ddiolchgar iawn i rieni’r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y misoedd cyntaf.


Un o fwriadau’r tri yw rhoi cyfleon amrywiol i’r côr. Felly yn ogystal â chystadlu yn Eisteddfod y Cymoedd maen nhw wedi canu mewn cartref henoed yng Nghaerffili, gan ddysgu sawl darn newydd ar gyfer yr achlysur. A chyn Nadolig fe ymddangosodd y côr ar raglen Bore Cothi ar BBC Radio Cymru, gan greu tipyn o argraff.

Felly beth yw’r gobeithion ar gyfer 2019? Yn ôl Rhys maen nhw’n awyddus i gynyddu’r aelodaeth ac hefyd i adeiladu ar y llwyddiant a’r hwyl a gafwyd llynedd. “Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni!” meddai. A gydag yntau bellach yn arwain Côr Cwm Ni, y bwriad yw y bydd tipyn o gydweithio rhwng y ddau gôr hefyd.

Ceriann Arianrhod

Y nofel dan sylw yng nghyfarfod mis Rhagfyr oedd “Hen Bethau Anghofiedig” gan Mihangel Morgan a chawsom ni drafodaeth eithaf bywiog, gyda barnau aelodau'r grŵp yn bell o fod yn unfryd.

Ar daith drên hir, ddiflas, gyda'r nos, mae'r “awdur” yn cwrdd â hen ffrind ysgol, Merfyn, sydd yn ystod y daith yn adrodd ei hanes cythryblus. Mae Merfyn yn sôn am sut etifeddodd “Lluest Uchaf”, tŷ ei fodryb Mona, menyw roedd e wedi anghofio'n llwyr am ei bodolaeth. Mae'n symud mewn gyda'i bartner, Harri, gyda'r bwriad o drawsnewid y lle a'i droi'n ail gartref, ac mae “Lluest Uchaf” yn dod yn “Little



Nest”. Ac yntau wedi colli cysylltiad â Chymru a'r iaith Gymraeg, dyw Merfyn ddim yn ceisio gwrthsefyll dylanwad Harri pan mae hwnnw'n awgrymu clirio'r holl lyfrau a phapurau Cymraeg o'r tŷ a'u llosgu'n ulw yn yr ardd. Mae teulu a ffrindiau'n dod i ymweld, ond yn fuan iawn mae pethau annifyr ac anesboniadwy'n dechrau digwydd.....


Mae'r stori'n symud ymlaen yn rhwydd gyda llawer o gymeriadau a sefyllfaoedd difyr sy'n cael eu disgrifio gyda dogn helaeth o hiwmor du. Mae Merfyn yn dechrau ymddiddori yn hanes adfeilion pentref y mwynloddwyr sy gerllaw ac yn ailgydio yn y Gymraeg. Mae'n dod o hyd i ysgrifau hunangofiannol Mona a chlywir ei hanes hi yn ei geiriau ei hunan. Ond does dim llonydd i'w gael gan yr ysbrydion yn y tŷ ac mae'r stori'n mynd yn fwy a mwy tywyll wrth i'r diwedd glo agosáu.

Ond nid stori ysbrydion yn unig sy yma. Mae teitl y nofel yn cyfeirio at gerdd adnabyddus Waldo Williams, “Cofio”, sy'n sôn am “hen bethau anghofiedig dynol ryw” sy “ar goll yn awr yn llwch yr amser gynt”. Yn y nofel mae'r iaith a'r gymuned Gymraeg dan fygythiad ac mae perygl y bydd “hen bethau” fel ysgrifau Mona yn cael eu colli am byth. Mae'r bygythiad yn cael ei gynrychioli gan yr ysbrydion, ac yn arbennig y stelciwr, “DB”, ac mae neges y nofel yn eithaf tywyll gan nad yw Merfyn yn ddigon cryf i wrthsefyll y bygythiad hwn o'r ochr draw.

Ond pam yr enw “DB”? Oes unrhyw arwyddocâd iddo fe? Cysylltwch â ni, da chi, os oes syniadau gyda chi yn hyn o beth - bydden ni'n falch o glywed

Nid oedd pob aelod o Glwb Darllen Cwmni yn frwdfrydig am y llyfr oedd i'w drafod yng nghyfarfod mis Ionawr eleni. Ac felly cafwyd dadlau a thrafod digon brwd. Ond eto roedd dewis “Digon i'r Diwrnod”, pumed nofel lawn Geraint Evans, yn ddewis digon poblogaidd gan i fwyaf yr aelodau fwynhau'r pedair nofel dditectif gyntaf o eiddo'r awdur.

Gareth Prior a Teri ei ddirprwy yw'r cymeriadau canolog ac mae eu hantur y tro hwn braidd yn wahanol wrth i'r Prif Gwnstabl alw arnynt i ryddhau gwystlon gwarchae yng nghartref anghysbell barnwr yn yr uchel lys. Ceir portreadau llawn o amryw gymeriadau lliwgar a gwrthgyferbyniol.



Cytunai pawb ei bod yn nofel rwydd i'w darllen ond doedd y plot a nifer o'r digwyddiadau ddim yn plesio pawb oherwydd diffyg hygrededd. Teimlai rhai bod ambell ddarn yn y nofel yn fwy fel atodiadau gan nad oeddent yn asio i mewn yn gyffyrddus. Ond rhaid cyfaddef fod galw am droi'r tudalennau yn reit gyflym i gael gweld beth ddigwyddai nesaf yn y nofel gyffrous hon.

Dihunodd sawl aelod o'r clwb fore Nadolig a gweld fod Sion Corn wedi gadael copi o nofel ddiweddaraf John Alwyn Griffiths yn eu hosan. Yn wir, roedd un aelod eisoes wedi dechrau darllen y gyfrol ac arweiniodd hyn at gymhariaeth rhwng gwaith John Alwyn a llyfrau Geraint Evans. Y teimlad oedd bod awdur nofelau'r cyn-heddwas â llawer mwy o hygrededd yn perthyn iddynt nag o eiddo'r darlithydd prifysgol, Geraint Evans. “Dan Bwysau” yw offrrwm ddiweddaraf John Alwyn (mae teitl pob un o'i nofelau'n dechrau gyda'r gair “Dan”) a chawn ein hannog i fwrw ati i sicrhau copi.

Ganol mis Ionawr daethom at ein gilydd drachefn. Y tro hwn i gael rhagolwg o waith diweddaraf Gareth Williams, ein nofelydd lleol. Roedd Gareth yn awyddus ein bod ni'n trafod yr hyn oedd wedi ysgrifennu mor belled ac i ni gynnig syniadau ac awgrymiadau. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld y gwaith mewn print.

“Fel Aderyn” Manon Steffan Ros fyddwn ni'n trafod ym mis Chwefror.

BanglaCymru

RHAN 3 Diwedd 2018

Ar ddiwedd y flwyddyn pleser yw cael anfon atoch ddiweddariad ar waith BanglaCymru. Yn ystod y misoedd diwethaf aethpwyd â'r feddygfa sawl gwaith i ardaloedd difreintiedig a thlawd a gweld ugeiniau o bobl na allent fforddio mynd i weld meddyg a rhoi iddynt ymgynghoriad, diagnosis ac yn aml y feddygyniaeth yr oeddent ei hangen. Ar ôl cyfarfod yr ymddiriedolwyr yng nghwmni ein cydlynnydd meddygol, Dr Jishu, penderfynwyd cynnal y sesiynau hyn yn fisol o hyn ymlaen. Un fenter newydd sydd wedi bod yn llwyddiant yw ein clinig llygaid. Mae ganddom arbenigwr llygaid sy'n dod yn bythefnosol ac yn defnyddio'r ganolfan ac ar gyfartaledd yn gweld tua 35 o gleifion bob tro. Mae hyn, felly, yn denu cleifion newydd i ddod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd gyda ni yn Chittagong.



Da hefyd yw cael adrodd fod ein meddyg, Dr Dipa, yn ôl yn gweithio gyda ni yn dilyn y trallod o golli ei merch. Mae ei swyddogaeth hi'n gaffaeliad i'r ganolfan oherwydd y gall, gyda'n hymwelydd iechyd, ymdrin â materion parthed iechyd merched.

Dyma un o'n cleifion a welwyd wythnos ar ôl ei lawdriniaeth. (Mae'r ysmotyn du yn cael ei roi ar dalcen y mwyafrif o fabanod yn y gred y bydd yn atal y diafol rhag treiddio i enaid y bychan.)

Ein prif genhadaeth, wrth gwrs, yw rhoi llawdriniaeth blastig i'r cleifion sy'n dioddef o'r cyflwr hollt (*cleft*). Mae'r cyfanswm bellach wedi cyrraedd 1,311 ers sefydlu'r elusen ddeng mlynedd yn ôl. Perfformiwyd 11 ohonynt yn ystod y bythefnos ddiwethaf. Diolch o waelod calon i bawb am yr haelioni a'r anogaeth. Blwyddyn Newydd dda i chi.

Cymdeithas Edward Llwyd

Cadwch eich Corff a'ch Cymraeg yn Heini


A fydddech chi'n mwynhau'r cyfle i siarad Cymraeg bob dydd Sadwrn? A ydych yn hoffi cerdded yn ein cefn gwlad hyfryd? Beth am ymuno â ni ar un o deithiau cerdded Cymdeithas Edward Llwyd? Mae taith ar gael bob dydd Sadwrn. Mae ein hardal yma yn y de yn ymestyn o bont Hafren i Dyddewi ac mor bell i'r gogledd â Chorris. Ardal eang, siŵr iawn, ond mae llawer o'r teithiau o fewn taith awr mewn car o'ch ardal.

Efallai eich bod chi'n un o'r Cymry sydd wedi dysgu ein hiaith ac eisiau symud ymlaen a chyfarfod y Cymry yn eich ardal - dyma siawns i chi. Dim ond tua 5 - 7 milltir yw hyd y teithiau ac nid ydyn nhw'n rhy anodd i rywun sydd wedi arfer gadael y car a mynd am dro. Mae'r gaeaf yn amser da i ddechrau, ddim yn rhy boeth. Efo esgidiau cerdded da dylai'ch traed fod yn sych a chynnes. Wrth wisgo haenau cynnes o dan ddillad dal dŵr a het ar eich pen byddwch yn teimlo'n reit smyg eich bod chi wedi ennill yn erbyn natur. A sôn am natur, unwaith mae'r gaeaf drosodd a haul y gwanwyn yn cynhesu'r ddaear byddwch yn gallu mwynhau eich ffitrwydd yn yr awyr agored yn y tymor gorau o'r flwyddyn a gwerthfawrogi byd natur.

Bydd ein haelodau'n estyn croeso mawr i chi a byddwch chi'n cael y siawns i siarad Cymraeg am ddiwrnod cyfan. Beth amdani? Siarad Cymraeg a chadw'n heini ar yr un pryd? All pethau ddim bod yn well!

Os ydych eisiau trafod hyn ymhellach cysylltwch â fi bobwennol@ntlworld.com

Mae ein rhaglen i'w gweld ar ein gwefan www.cymdeithasedwardllwyd.cymru



Colofn Dafydd Islwyn

Darllenais yn ddiweddar gyfeiriad at Gwm Rhymni mewn chwe chyfrol ac un cylchgrawn. Darllenais am Senghenydd, Cwm yr Aber, mewn un gyfrol. Soniwyd am Gwm Rhymni mewn dwy gyfrol a gyhoeddwyd yn 2017 ac mewn pedair a gyhoeddwyd y llynedd ac yn rhifyn mis Hydref 'Barn' y llynedd.

Cyn y Nadolig y llynedd prynais yn ail-law o Siop Lyfrau'r Hen Bont, Blaenau Ffestiniog, ddwy gyfrol. 'Tros y Tres' Gwasg Gee, Dinbych, a 'Troi'r Drol', Gwasg y March Gwyn, Dinbych, 1963, dwy gyfrol gan Huw T. Edwards (1892-1970). Yn ei ddydd yn undebwr amlwg a dyn cyhoeddus, cawn ei hanes yn y ddwy gyfrol. Roedd y brodor o ardal Penmaenmawr ar arfordir gogledd Cymru yn gweithio ger Aberpennar ar y 14eg o Hydref 1913. Meddai, "Brysiais yno ar funion a chefais y fraint fawr o fod yn un o'r rhai a ddewiswyd i fynd i lawr i geisio gwneud yr hyn a ellid." Yn y gyfrol 'Tros y Tres' ceir disgrifiad o'r hyn a welodd ar waelod y pwll. Roedd yn cofio'r braw a gafodd wrth ysgrifennu ei atgofion. Ychwanegodd: "Wedi bod i lawr am ddwy awr daeth nifer o rai eraill i gymryd ein lle. Nid anghofiaf byth gyrraedd pen y pwll. Mamau a gwragedd yn rhuthro arnom, yn gofyn a oedd yno obaith i'w hanwyliad gael eu hachub." Ar hyd ei oes bob tro y clywai feirniadaeth o'r diwydiant glo hyn oedd y darlun a ddeuai o flaen ei lygaid.

Yn ei chyfrol 'Seidr Ddoe' mae Linda Griffiths yn sôn am ei chysylltiad teuluol â Phontlotyn wrth drafod y gân 'Y Ferch o'r Bargoed'. 'Cymro a'i Lyfrau' ydy teitl hanes Gerald Morgan. Ganwyd ef yn Brighton. Ym mharagraff agoriadol ei gyfrol mae'r awdur, sy'n berchen ar lyfrgell drawiadol yn Aberystwyth, yn dweud, "Mae'n wir mai Cymro Cymraeg o Bontardawe oedd fy nhad, ond un a aned yng Nghasnewydd oedd mam, o dras hanner Cymreig. Ond Brighton? Cynnyrch ysgol fonedd yn ninas Bath? "Yr unig addysg ges i yng Nghymru oedd ychydig wythnosau mewn ysgol elfennol yn Rhymni yn 1940." Cyhoeddwyd y ddwy gyfrol yn 2017.

Rhif 92 yn y gyfres Llyfrau Llafar Gwlad ydy Eryl Wyn Rowlands, brodor o Ynys Môn sy'n byw yn Plymouth. Teitl ei gyfrol ydy, 'Hanes y Baco Cymreig', Gwasg Carreg Gwalch. Cofnodir yn y llyfr hanes pâr priod o Ddowlais, Thomas a Hannah Jones. Archebodd Morgan Evans, groser yn Nowlais, un pwys ar hugain o faco a phedwar pwys o sigârs o Lerpwl yn 1879. Cyrhaeddodd y cyflenwad yn ddiogel hyd Gyffordd Pont Rhymni. (Mae Llechryd yn enw cyfoethocach.) Maes o law fe welwyd Hannah yn gwerthu baco am esgidiau a bwyd yn Nowlais a chyhuddwyd hi a Thomas o ddwyn. Daeth Hannah i'r llys yn cario ei baban yn ei breichiau a rhyddhawyd hi. Ond dedfrydwyd Thomas i dri mis o garchar â llafur caled.

Y llynedd hefyd y cyhoeddwyd 'Margaret' sef hunangofiant Margaret Williams y gantores o Frynsiencyn, Ynys Môn. Bu Hywel Gwynfryn yn cydweithio â hi i gael ei



hanes i fwcwl. Ym mis Mai 1964 symudodd hi a'i gŵr Geraint i Gwm Rhymni - "Cefais swydd yn Gelligaer (neu Gelli-gêr chwedl y bobol leol) a chafodd Geraint swydd yng Nghaerffili yn ysgol Cwm Ifor, hen swydd y tenor Stuart Burrows a ddaeth yn ffrind mawr i ni'n dau." Tra yn athrawon yn y cwm buont yn lletya gyda Mrs Myfi Williams yn 69 Central Street, Ystrad Mynach. Diddorol iawn yw hanes piano modryb Mrs Williams! Doedd ei sŵn ddim yn addas!

I'w barhau

STRAEON RYGBI AR RADIO CYMRU



Wrth i Raglen Ifan Evans edrych ymlaen at Bencampwriaeth y Chwe Gwlad, mae gan bob ardal yng Nghymru ei straeon unigryw sy'n ymwneud â chefnogi'r tîm cenedlaethol. Straeon am aberth unigolion i sicrhau tocynnau i gêm, straeon am deithiau drwy stormydd enbyd er mwyn cefnogi eu gwlad, straeon lliwgar am dripiâu i'r Alban, Iwerddon, Ffrainc ac yn y blaen, a chyfeillgarwch oes gydag unigolion ar draws rhai o'r gwledydd hynny.

Mae Ifan Evans am glywed eich straeon CHI dros gyfnod y 6 Gwlad. Straeon doniol, dwys, lliwgar, hynod. Straeon sy'n profi mai cefnogwyr rygbi Cymru yw'r rhai mwyaf angerddol, eithafol, ymroddedig a'r gorau yn y byd! E-bostiwrch eich straeon i ifan@bbc.co.uk

Teithiau Clwb Cerdded / Walking routes

10:00—12:00



- Chwefror 6 - Fferm Tŷ Isaf - Cwrdd ar iard y ffarm, Fferm Tŷ Isaf, Bedwas CF83 8EQ
- Chwefror 13 - Bargod i Deri - Cwrdd ym maes parcio ar ddiwedd Teras Bryste CF81 8RG
- Chwefror 20 - Parc Penallta - Cwrdd yn y maes parcio ger y ganolfan addysg CF82 7GN
- Chwefror 27 - Cyfarfod Cynllunio - Swyddfa Menter Caerffili
Suite 1, Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW

*Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded addas ar gyfer y teithiau.



Dewch i ddathlu Dydd Gwyl Dewi gyda ni, cofiwch wisgo gwisg Cymreig!



Dydd Gwener

22-02-19

1:00-2:30



Jelly Totz, Pontllanffraith, NP12 2XF
(Cost mynediad arferol Jelly Tots)



bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



1 Blant For Kids

mentercaerffili.cymru



mentercaerffili.cymru

Gweithgareddau Hanner Tymor Chwefror

£5

DYDD LLUN - 25 / 2 / 19

£5



Sesiwn Gemau Fideo (oed 7-11)

1:00-3:00pm

Lleoliad: Swyddfa Menter Caerffili, Suite 1,

Parc St Margarets, Heol Pengam, Aberbargod, CF81 9FW



Cyfle i chwarae gemau fideo a creu fideos ar gyfer ein sianel youtube 'Gemau Retro'

RHAID BWCIO - morganroberts@mentercaerffili.cymru 01443820913

£5

DYDD MAWRTH - 26 / 02 / 19

£5



Sesiwn Ceginio (oed 7-11)

10:00-12:00pm

Lleoliad: Ty Mynydd Islwyn Environment Centre,
Bryn Road, Pontllanfraith, Blackwood, Gwent NP12 2BH



Cyfle i ddathlu Dydd Gwyl Dewi a diwrnod crempog yn creu Pice a crempog!

RHAID BWCIO - bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913

£5

DYDD IAU - 28 / 02 / 19

£5



Sesiwn Crefft Natur (oed 7-11)

10:00-12:00pm

Lleoliad: Canolfan Glowyr Caerffili Caerphilly Miners Centre,
1 Beech Tree View, Beeches Village, Caerphilly, CF83 1DX



Cyfle i wneud amrywiaeth o grefft natur; peintio cerrig, crefft argraffu a mwy.

RHAID BWCIO - bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



mentercaerffili.cymru



mentercaerffili.cymru

GWLEDD GŴYL DDEWI

NOS WENER

MAWRTH 1 2019

7:00pm

TOCYNNAU £30



TRIO

Pryd yn cynnwys cynhwysion gan gynhyrwyd lleol:
cawl cennin, cinio rhost cig oen a phwddin bara brith.

Opsiwn rhost oen vegan ar gael.
Cysylltwch gydag unrhyw alergeddau.

Archebwch cyn Chwefror 15

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o'r gloch

Chwefror 4ydd – Fel Aderyn
gan Manon Steffan Ros

Mawrth 4ydd – Sgythia
gan Gwyn ap Gwilym

Ebrill 1af - Cysgodion Cam gan Ioan Kidd

penneyje961@gmail.com
Croeso Cynnes i Bawb

Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Dydd Gwener
8fed o Chwefror

“Arwyr Cymru”
gan Jon Gower

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen
A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill
(Wetherspoons), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com
Croeso i Bawb

Merched y WawrCwm Rhymni



Nos Fercher, 20^{fed} o Chwefror
7:00

Noson yn nghwmni'r
Prifardd Cyril Jones

Festri Tonyfelin

Croeso mawr i bawb, yn enwedig dysgwyr

Aelodau am ddim - £3 i ymwelwyr

Cyswllt: Gaynor Williams ☎ 01443 814079

Hanes Cwm Ni

7/2/19 Allan Cook
Te a China


7/3/19 Rob Evans
Smyglwyr Cymru

2/5/19
l'w cadarnhau



Clwb Rygbi Penallta
Ystrad Mynach CF82 7EP
7:00yh
Am ragor o fanylion:
helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.
Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



Clwb Cerdd Cwm Rhymni

Canolfan Siloh,
Ystrad Mynach

Pumawd Pres

16^{eg} o Chwefror
2:30

£8
(£7.50 i bensiynwyr)
Lluniaeth Ysgafn

Festri Tonyfelin, Caerffili

Llenyddda

Llenyddiaeth Eisteddfod eleni:
Y Stori Fer, Ysgrif, Llen
Meicro Dyddiadur Dychymyngol
ayyb

**Yr Athro E. Wyn
James**

Nos Iau, 14eg o Chwefror
7:00 tan 9:00

Croeso Cynnes i Bawb



www.iwcs.cymru

**Sesiynau bob Nos Fawrth
Clwb Rygbi Penallta**

6.00 – 8.00
£5 y sesiwn
07745927308

iwscymw2015@gmail.com



Pam Adnoddau Staffio?

Sefydlwyd Adnoddau Staffio yn benodol i weithio o fewn y sector trwyddedig a diwydiannol gan ddarparu staff ar gyfer cwmnïau Bwyd, Diod a Diwydiannol.

Mae gennym staff profiadol ac ymroddedig. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio yn benodol ar eich sector chi. Gyda gwybodaeth eang o reoliadau'r sector, mae ein polisi and gweithdrefniadau wedi'u llunio i'ch cefnogi, fel cleient.

Deallwn fod gennym gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol i warchod ein gweithwyr ac mae gennym bolisiâu penodol yn eu lle i osgoi masnachu mewn pobol a chaethwasiaeth fodern - problem o fewn y diwydiant.

Cyfarwyddwr /Rheolwr: **Steven John Skivens**
steves@resourcestaffing.co.uk

Adnoddau Staffio Cyf. www.resourcestaffing.co.uk



Cwrw da Cymreig a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystad Ddiwydiannol Trefforest
CF37 5YB



Ar agor bob dydd Gwener 09:00 – 17:00
www.twtlol.com

Fab Fabrics

@FabFabrics
Fab Fabrics, Ystrad Mynach
Tel. 07964 822865
fabfabrics99@gmail.com



JansanWear

Uned G, Ystad Ddiwydiannol
Bowen, Aberbargoed, CF819EP

PFSS

"Yn gweithio i leihau neu ddileu risg"

ASESIAD RISG –

YDYCH CHI WEDI GWNEUD UN?

Am nodi pris heb rwymedigaeth gan Asesydd

Tân cymwys. Cysylltwch â ni:

029 20 888798 07812 636655

PFSS@hotmail.co.uk



- * Cynllunio a Rheoli Cymunedau Busnes
- * Cyngor arbenigol a chymwys
- * Offer tân ac achub
- * Hyfforddiant ymarferol a damcaniaethol
- * Cyngor ac Ymgynghoriad
- * Cynlluniau, gweithdrefnau a pholisïau
- * Asesiad ac archwiliad risg
- * Addasu adeiladau
- * Ardaloedd arbenigol
- * Systemau nyrsys ar alwad
- * Larwm tân a goleuadau brys
- * Gosod a gwasanaethu offer
- * Profion trydanol



BARCLAYS



Croesawn wybodaeth werthfawr a ddaeth i'n sylw, sef fod Banc Barclays yn cynnig gwasanaeth uniongyrchol yn y Gymraeg. Gellir gwneud ymholiadau yn y Gymraeg mewn nifer o fanciau eraill ond, yn aml, caiff y cwsmer ei drosglwyddo o un swyddog i'r llall. Mae gwasanaeth Barclays, beth bynnag, yn cynnig rhif cyswllt sydd yn mynd yn syth at siaradwr(aig) Cymraeg.

Atebir pob galwad mewn Cymraeg gloyw gan y Tîm Gwasanaeth Cymraeg a leolir yn 32 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, sy'n golygu y gallwch ysgrifennu atynt os ydych yn dymuno gwneud eich busnes felly. Gall cwsmeriaid Cymraeg gael mynediad i'r Gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn

wrth ddeialu 0333 202 7450 neu gallwch yrru ebost at: welshcallcentre@barclays.com

Mae swyddogion hynod gyfeillgar yn disgwyl eich galwad ac yn barod i'ch helpu gydag ystod o wasanaethau. Gallwch drafod unrhyw ymholiad ar eich cyfrif personol neu gyfrif busnes. Hefyd, gallwch archebu llyfrau talu i mewn a llyfrau siec Cymraeg, trosglwyddo arian neu dalu biliau.